



Partneriaeth CASCADE



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales




Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2023 - 2024 Adroddiad blynyddol





Partneriaid Seilwaith CASCADE



Cynnwys

1. Trosolwg y Cyfarwyddwr	4
2. Pwy yw Pwy, Llywodraethu, Partneriaethau	6
3. Crynodeb o'r flwyddyn	7
4. Sbotolau ar brosiectau ymchwil dethol	12
5. CASCADE yn dathlu 10 mlynedd o ragoriaeth mewn ymchwil gofal cymdeithasol plant	17
6. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'u Cynnwys	20
7. Casgliad	24



1. Trosolwg y Cyfarwyddwr

Un o fy hoff bethau am fod yn Gyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE yw gweld ein Hadroddiad Blynyddol yn dod at ei gilydd. Yng nghanol prysurdeb bywyd pob dydd – ac mae'r Bartneriaeth yn sicr yn brysur iawn! – mae'r darlun mawr yn gallu cymylu'n rhwydd. Mae camu'n ôl i gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol yn gyfle i adolygu a gwerthfawrogi'r holl waith caled gan gynifer o bobl sydd wedi creu blwyddyn arall lwyddiannus.

Mae llawer o feysydd y gallem ganolbwyntio arnynt, ond rydym wedi dewis dau: ymchwil sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol; a'n cyrhaeddiad rhyngwladol. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae elfen gymdeithasol yn perthyn i ymchwil ym maes gofal cymdeithasol bob amser. Mae anghydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol yn themâu craidd ar gyfer ein gwaith. Fodd bynnag, eleni rydym am arddangos yr elfen hon o'n gwaith. I wneud hynny, rydym wedi dewis prosiectau sy'n ymwneud â'r croestoriad rhwng ffactorau risg rhieni â thlodi, ethnigrwydd a rhywedd; plant awtistig mewn gofal; plant o leiafrifoedd ethnig yn system lles plant Cymru; a gwerthusiad y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Mae ein gwaith rhyngwladol wedi bod yn tyfu'n gyflym, gydag ymweliadau gan ysgolheigion a myfyrwyr o Sweden, y Ffindir, Norwy, yr Eidal, Tsieina ac Unol Daleithiau America yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu proffil rhyngwladol cynyddol Partneriaeth CASCADE a chydabyddiaeth o'n harbenigedd methodolegol sy'n datblygu. Cadarnhawyd hyn trwy ein rôl arweiniol wrth sefydlu'r Ganolfan Plentyndod Gorau yn Copenhagen – buddsoddiad gwerth £38 miliwn i wella defnydd a dealltwriaeth o ymchwil gan y proffesiynau sy'n gweithio gyda phlant yn Nenmarc. Rwy'n falch iawn o fod yn Gyfarwyddwr Ymchwil Sefydli, gan helpu i sefydlu'r sylfeini deallusol ar gyfer y gwaith. Bydd aelodau eraill o CASCADE yn ymwneud â'r rhaglen waith uchelgeisiol hon wrth iddi gael ei chwblhau yn ddiweddarach yn 2024 a thu hwnt.

Mae eleni hefyd yn flwyddyn i fyfyrion a dathlu y tu hwnt i'r 12 mis diwethaf – oherwydd bod CASCADE yn 10 oed yn 2024. Wrth gwrs, rwy'n hynod falch o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud a'r gwahaniaeth y credaf ein bod yn ei wneud, ond mae'r cyfuniad o'r garreg filltir hon a gorfod cyflwyno cynigion ar gyfer y pum mlynedd nesaf o gyllid wedi arwain at fyfyrion sylweddol ar y cyd ar gyfeiriad posibl CASCADE a'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Yn adroddiad y flwyddyn nesaf, byddwn yn amlinellu beth mae'r cynlluniau hyn yn ei olygu, ond am y tro mae'n ddigon dweud eu bod yn cynnwys adeiladu ar yr hyn rydym eisoes yn ei wneud yn dda, datblygu meysydd gwaith newydd cyffrous a thyfu nid yn unig fel Partneriaeth ond hefyd drwy ddatblygu canolfannau a sefydliadau partner eraill: dull yr ydym yn ei alw'n dwf rhwydwaith.

Yn y dathliad 10fed pen-blwydd, dywedodd Wendy Larner, Is-ganghellor newydd Prifysgol Caerdydd, fod Partneriaeth CASCADE yn dangos ei gweledigaeth o brifysgol â chenhadaeth ddinesig fyd-eang. Roedd hi'n golygu bod gan Bartneriaeth CASCADE wreiddiau dwfn yng Nghymru a'n sector, a bod hynny'n ein galluogi i ymgysylltu a chael dylanwad yn rhyngwladol. Mae hwn yn ddisgrifiad gwych o'n dyheadau a'n cynlluniau strategol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf – ac mae'n galonogol gwybod eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r cyfeiriad a fwriedir ar gyfer ein rhiant-sefydliad.

Gobeithiaf y bydd y crynodeb hwn o rai elfennau o'n gwaith rhwng 2023 a 2024 yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi.

Donald Forrester

Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE



'Mae CASCADE yn enghraifft wych o'r math o waith y mae Caerdydd yn ei wneud orau... yr hyn y mae prifysgol ddinesig fyd-eang yn ei wneud yw gwaith sy'n ymgysylltu'n ddwfn yn y lle y mae ynddo, ond yna mae'n defnyddio hynny i siarad â'r byd, i gwneud gwahaniaeth i'r byd. Felly, nid yn unig gwneud gwahaniaeth yn ei lle, ond gweithio o ddifrif i ddangos i'r byd y gwahaniaeth y gall gwaith seiliedig ar le ei wneud. Ac ni allaf feddwl am enghraifft well na CASCADE o'r math hwnnw o waith'

Yr Athro Wendy Larner
Is-ganghellor, Prifysgol Caerdydd.



2. Pwy yw Pwy, Llywodraethu, Partneriaethau

Mae'r Bartneriaeth yn dod â phedair canolfan ymchwil at ei gilydd. Cawn ein harwain gan Fwrdd Llywodraethu sy'n cyfarfod bob chwarter – er bod llawer o'n hegri a'r syniadau newydd a gynhyrchir yn deillio o'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd i ddatblygu a chyflawni prosiectau neu feysydd gwaith penodol, ac o'r diwrnodau i ffwrdd a'r seminarau rheolaidd.



Mae Donald Forrester yn Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a Theuluoedd ac yn Gyfarwyddwr CASCADE. Mae'n Gyfarwyddwr y Bartneriaeth ac mae'n gyfrifol am oruchwylio ei holl waith.



Mae Jonathan Scourfield yn Athro Gwaith Cymdeithasol ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr CASCADE. Mae ganddo rôl allweddol yn y broses o ddatblygu ein gwaith o ran cysylltu data â gofal cymdeithasol plant.



Mae Alyson Rees yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. Mae Alyson yn arwain gwaith ymgysylltu ein hymchwil gofal cymdeithasol i Gymru gyfan – a elwir yn ExChange.



Mae David Wilkins yn Ddarllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. David sy'n bennaf cyfrifol am ddatblygu proffil, dylanwad ac effaith allanol y Bartneriaeth.



Jo Parry yw Rheolwr y Ganolfan yn CASCADE, ac mae'n arwain y broses o ddarparu cymorth gwasanaethau proffesiynol mewn modd effeithlon ledled y Bartneriaeth.



Mae Mike Robling yn Athro ac yn Gyfarwyddwr Treialon Iechyd y Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Mae'n arwain cyfraniad y Ganolfan Treialon Ymchwil ac mae ganddo rôl allweddol yn datblygu dulliau gwerthuso cymhleth ac arloesol ar gyfer gofal cymdeithasol i blant.



Mae David Ford yn Athro Gwybodeg ac yn Gyfarwyddwr Gwyddor Data Poblogaethau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae'n arwain cyfraniad Banc Data SAIL, gan gefnogi'r gwaith o lunio portffolio o astudiaethau trwy ddefnyddio dulliau cysylltu data uwch a gymhwysir at ofal cymdeithasol i blant.



Mae Katherine Shelton yn Athro Seicoleg Ddatblygiadol ac yn Bennaeth Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd. Mae hi'n gweithio gyda Lorna Stabler (CASCADE) ac Amy Paine (Seicoleg) ar astudiaeth o Warcheidiaethau Arbennig a ariennir gan Sefydliad Nuffield i wella ein dealltwriaeth o fywyd teuluol ac anghenion cymorth.

3. Crynodeb o'r flwyddyn

Metrigau Craidd Cyfnod adrodd: 2023/2024



**Gwobr seilwaith
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£524k

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	13	9
Gwerth	£2.6m	£40.1m
Cyllid i Gymru	£1.8m	£2.2m
Cyllid i grŵp	£1.8m	£1.8m
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	21	7
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	17	3



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Ymgysylltu â pholisi ac effaith CASCADE

Mae CASCADE wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall o ymgysylltu â pholisi ac effaith. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:



Ar ôl ymgynghori ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'u hanghenion tystiolaeth, ers mis Chwefror 2024, mae CASCADE wedi bod yn arwain seminarau caeedig misol pwrpasol ar gyfer uwch swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio'r rhaglen bresennol o ddiwygio gofal cymdeithasol plant. Mae nifer dda wedi mynychu'r rhain ac mae swyddogion wedi cael y cyfle i glywed canfyddiadau nas cyhoeddwyd a chanfyddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar a chymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu polisiau ar sail tystiolaeth a gweithredu diwygiadau.

Ym mis Chwefror 2024, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori gan CASCADE i lywio ymchwil gyfredol ar gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar, dan arweiniad Alyson Rees. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, swyddogion carchardai a gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â phobl â phrofiad bywyd o ofalu am blentyn yn eu teulu pan oedd rhiant yn y carchar.



Ym mis Mai 2023, cafodd dyfyniadau lluosog i ganfyddiadau ymchwil CASCADE o sawl prosiect ymchwil gwahanol eu cynnwys yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar Wasanaethau i Blant sydd wedi Bod Mewn Gofal: Archwilio diwygio radical (senedd.cymru)

Ym mis Mehefin 2023, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Rieni sydd â Phrofiad o Ofal, gan dderbyn 'mewn egwyddor' y dylai awdurdodau lleol fabwysiadu siarter rhieni CASCADE, a ddeilliodd o ymchwil a ariannwyd a chydgyhyrchu gyda'n grŵp cynnwys y cyhoedd ar gyfer rhieni: <https://senedd.cymru/media/1sjpgh15/gen-ld15892-e.pdf>.

Ym mis Chwefror 2024, rhoddodd Sally Holland dystiolaeth yn un o sesiynau Ymchwiliad Covid y Deyrnas Unedig ar brofiadau plant yn ystod y pandemig, ac ymatebion y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd Nina Maxwell dystiolaeth ar ran CASCADE i ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ynglŷn â chamfanteisio ar blant.

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Sally Holland dystiolaeth i Bwyllgor Tŷ'r Cynrychiolwyr Canada a oedd yn trafod diddymu deddfwriaeth sy'n caniatáu i rieni gosbi plant yn gorfforol.



Mae ymchwilwyr unigol CASCADE wedi parhau i ymgysylltu â'r sector polisi. Mae hyn yn cynnwys ymchwilwyr sy'n aelodau o amrywiaeth o Fyrddau a grwpiau cynghori, gan gynnwys y Bwrdd Llywodraethu Mabwysiadu Cenedlaethol, Byrddau Ymddiriedolwyr y Grŵp Hawliau'r Teulu a Voices from Care, Grŵp Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Gwrthgaethwasiaeth Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori Academiaidd Cyfiawnder Ieuencid Cymru. Bydd cynrychiolydd CASCADE yn aelod o Banel Cynghori Strategol Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae adrannau unigol y llywodraeth, ymchwilwyr seneddol ac awdurdodau lleol hefyd yn ymgynghori ag ymchwilwyr yn aml i drafod dystiolaeth ymchwil a dulliau gwerthuso. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd Dr Martin Elliott gyfarfodydd â'r tîm gofal plant preswyl yn yr Adran Addysg a Gwaith Cymdeithasol Lloegr mewn perthynas â chwmpasu'r ymateb i argymhelliad adolygiad MacAllister i gofrestru gweithwyr preswyl.

Cyrhaeddiad rhyngwladol

Canolfan Ymchwil Ryngwladol Newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant i Sicrhau'r Dechrau Gorau mewn Bywyd

Mae Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) Prifysgol Caerdydd yn falch o gyhoeddi ei rhan mewn cydweithrediad rhyngwladol uchelgeisiol sydd â'r nod o wella lles plant ifanc. Bydd yr Athro Donald Forrester o CASCADE yn rhan o'r tîm rheoli cychwynnol ac yn chwarae rhan hollbwysig wrth sefydlu'r Ganolfan Plentyndod Gwell, sef menter arloesol gan Goleg Prifysgol Copenhagen (UCC).

Mae'r ganolfan ymchwil ryngddisgyblaethol newydd hon, a gefnogir gan Sefydliad Novo Nordisk, Sefydliad LEGO, a'r TrygFonden, yn fuddsoddiad sylweddol mewn dyfodol lles plant. Gyda grantiau gwerth hyd at DKK 250 miliwn dros y degawd nesaf, nod y Ganolfan Plentyndod Gwell yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae blynyddoedd cynnar plant yn hollbwysig i'w datblygiad a'u llwyddiant yn y dyfodol. Bydd y Ganolfan yn canolbwyntio ar integreiddio ymchwil â chymwysiadau ymarferol i wella'r cymorth a ddarperir gan weithwyr proffesiynol lles fel bydrwagedd, nyrsys iechyd, gweithwyr cymdeithasol a ffisiotherapyddion. Trwy feithrin ymagwedd gyfannol, mae'r Ganolfan yn ceisio creu sylfaen wybodaeth gadarn a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar hyfforddiant ac arferion y gweithwyr proffesiynol hyn.

Y Ganolfan Plentyndod Gwell fydd y ganolfan ymchwil fawr gyntaf o'i bath i'w hariannu gan y gronfa, wedi'i lleoli mewn coleg prifysgol yn Nenmarc. Mae'r lleoliad strategol hwn yn sicrhau y caiff canfyddiadau'r ymchwil eu hintegreiddio'n ddi-dor i addysg gweithwyr lles proffesiynol y dyfodol, a thrwy hynny wella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i blant ifanc a'u teuluoedd.

“Heddiw, mae ymchwil gref yn y maes hwn eisoes, ond ein nod yw creu atebion cyfannol sy'n cwmpasu'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â blynyddoedd cynnar bywydau plant,” meddai Dean Annegrete Juul o'r Gyfadrann Addysg Gymdeithasol, Gwaith Cymdeithasol a Gweinyddiaeth yn UCC. “Ein nod yw gwella arferion proffesiynol i gefnogi plant ifanc a'u teuluoedd yn well.”

Mae'r Athro Forrester a CASCADE yn dod â phrofiad helaeth mewn ymchwil gofal cymdeithasol plant i'r cydweithrediad rhyngwladol hwn. Mae eu cyfranogiad yn tanlinellu ymrwymiad y ganolfan i gymhwysu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i heriau'r byd go iawn, gan sicrhau y bydd y wybodaeth a gynhyrchir o fudd uniongyrchol i blant a theuluoedd.

Bydd y Ganolfan Plentyndod Gwell yn agor yn swyddogol ym mis Awst 2024, gyda chyfres o weithgareddau wedi'u cynllunio yng Ngholeg Prifysgol Copenhagen i nodi'r achlysur. Mae cyfranogiad CASCADE yn y fenter hon yn amlygu pwysigrwydd cydweithredu rhyngwladol i hyrwyddo maes lles plant a sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ffynnu.

Ein cysylltiadau rhyngwladol



ALLWEDD

- Rhwydweithio
- Cynhadledd
- Cyhoeddi
- Prosiect Ymchwil
- Cydweithio
- Cyflwyniad
- Cyrhaeddiad Ar-lein

4. Sbotolau ar brosiectau ymchwil dethol

Ymchwil CASCADE ar anhydraddoldebau

Ers ei sefydlu yn 2014, mae ymchwil CASCADE wedi cynnwys pwyslais ar anhydraddoldebau, gyda dwy astudiaeth, a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield - Gwaith Cymdeithasol Dros Amser a'r Prosiect Anhydraddoldebau Lles Plant. Arweiniodd yr olaf at astudiaethau achos pellach a ariennir yng Nghymru ac ar hyn o bryd mae portffolio cryf o astudiaethau y sonnir amdanynt isod sy'n ymdrin ag amrywiol agweddau gwahanol ar anhydraddoldebau – rhywedd, ethnigrwydd, tlodi a niwroamrywiaeth. Ceir gwerthusiad mawr hefyd o'r cynllun incwm sylfaenol arloesol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae'r prosiectau hyn yn dibynnu ar fewnbwn cyfunol CASCADE, y Ganolfan Treialon Ymchwil, yr Ysgol Seicoleg ac arbenigedd cysylltu data ym Mhrifysgol Abertawe.



Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol

Bu ymchwydd mewn cynlluniau incwm sylfaenol ledled y byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i'r rhai sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn unigryw yn eu plith. Dyma'r un mwyaf hael hyd yma a'r ail yn y byd yn unig i dargedu pobl ifanc wrth iddynt adael gofal. Mae dros 600 o bobl ifanc ledled Cymru yn cael £1,600 y mis (£1,280 ar ôl treth) am ddwy flynedd yn dilyn eu pen-blwydd yn 18 oed, ynghyd â chymorth ariannol sy'n rhan o'r cynllun peilot. Mae nifer fawr wedi manteisio ar y cynllun peilot, wrth i 97% o bobl ifanc gymwys gofrestru i gael taliadau incwm sylfaenol.

Arweinir y gwerthusiad hwn, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan Sally Holland a David Westlake yn CASCADE, ochr yn ochr â chydweithwyr yng Ngholeg y Brenin, Llundain, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol Efrog, a Phrifysgol Northumbria. Mae'n werthusiad mawr a chymhleth sy'n defnyddio dyluniad lled-arbrofol i brofi effaith a gwerth am arian. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwerthusiad gweithredu a phroses aml-ddull. Drwy hyn, ein nod yw darparu adroddiad cadarn ar y gwahaniaeth y mae incwm sylfaenol yn ei wneud i'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Mae data sylfaenol yn awgrymu bod y grŵp hwn yn debyg i'r rhai eraill sy'n gadael gofal o'r un oedran, ac mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun peilot yn gefnogol ar y cyfan i'r rhai sy'n gadael gofal gael incwm sylfaenol, ond bod ganddynt bryderon ynghylch pa mor agored i niwed yw rhai derbynwyr. Roedd llawer o'r farn y byddai rhyw elfen o amodoldeb yn gwella'r cynllun peilot, er eu bod hefyd yn tynnu sylw at y cyfleoedd cynyddol yr oedd y cynllun peilot yn eu cynnig i bobl ifanc.

Mae'r cynllun peilot yn ymyriad radical a bydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'i gyflawni yn dod yn gliriach wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo. Nid yw'n syndod bod y cynllun peilot a'r gwerthusiad wedi denu cryn sylw gwleidyddol ac yn y cyfryngau, yng Nghymru a thu hwnt. Siaradodd y Prif Weinidog newydd amdano'n fanwl yn ei sesiwn graffu gyntaf. Disgwylwn i'r proffil hwn dyfu ymhellach fyth yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i ganfyddiadau'r gwerthusiad gael eu cyhoeddi, a byddwn yn adrodd ar y rhain yn flynyddol tan ddiwedd yr astudiaeth yn 2027.





Ffactorau Risg Rhieni a Phlant sy'n Mynd i Ofal.

Mae nifer o broblemau rhieni eisoes wedi bod yn gysylltiedig â phlant sy'n dod i ofal. Mae'r rhain yn cynnwys problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anableddau dysgu. Fodd bynnag, roedd llawer o bethau am y berthynas rhwng y materion hyn mewn rhieni a mynediad plant i ofal nad oeddem yn eu gwybod. Er enghraifft, a yw'r ffactorau hyn yn cael yr un effaith ar debygolrwydd gofal os ydynt yn digwydd mewn mamau neu dadau neu os ydynt yn digwydd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel neu isel? I ba raddau y mae nodweddion y plentyn yn dylanwadu ar effaith y ffactorau hyn, ac a yw unrhyw newidiadau yn nifer yr achosion o'r ffactorau hyn yn esbonio'r cynnydd yn nifer y plant sy'n mynd i ofal?

Ariannwyd astudiaeth Nell Warner ar Ffactorau Risg Rhieni a Phlant sy'n Mynd i Ofal gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i edrych ar y materion hyn. Cydweithrediad oedd hwn gyda'r Ganolfan Treialon Ymchwil, a Phrifysgolion Abertawe a Chaerhirfryn. Defnyddiodd yr astudiaeth ddata a gasglwyd fel mater o drefn gan wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'i gysylltu â data o iechyd ac addysg i edrych ar y cartrefi yr oedd plant yn byw ynddynt cyn iddynt ddechrau derbyn gofal. Edrychodd ar y ffactorau risg yn yr oedolion sy'n byw yn y cartrefi hynny yn ogystal â nodweddion y plant.

Ystyriodd amrywiaeth o ffactorau risg gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, trais yn y cartref, anableddau dysgu a gwahanol fathau o niwrowahaniaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r ffactorau risg yn edrych ar y tebygolrwydd cynyddol y byddai plant yn mynd i ofal. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth nifer o ganfyddiadau pwysig ychwanegol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys bod mwyafrif y risgiau'n cael mwy o effaith ar debygolrwydd gofal pan fyddant yn digwydd mewn mamau yn hytrach na thadau, a'u bod yn cael effeithiau gwahanol ar blant o leiafrifoedd ethnig gwahanol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod lefelau uwch o ffactorau risg yn esbonio'n rhannol pam mae plant o ardaloedd amddifadedd uchel yn fwy tebygol o fynd i ofal, a phan fydd yr holl ffactorau risg yn cael eu hystyried, bod plant o bob lleiafrif ethnig yn fwy tebygol o fynd i ofal na'r boblogaeth wyn fwyafrifol. Roedd y canfyddiadau hefyd yn awgrymu y gallai rhai o'r niferoedd cynyddol o blant sy'n mynd i ofal fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn gorbryder ac iselder yn y boblogaeth.

ERICA – Anghydraddoldebau Ethnig a Chrefyddol mewn Lles Plant: Patrymau a Chanlyniadau

Nod yr astudiaeth hon yw ymchwilio i batrymau a thueddiadau anghydraddoldebau ethnig a chrefyddol mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant yng Nghymru. Gan weithio'n agos gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Lleafrifoedd Ethnig (EYST), sefydlwyd panel defnyddwyr gwasanaeth amrywiol yn cynnwys defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o leiafrifoedd ethnig drwy gydol oes y prosiect. Rydym hefyd wedi cydweithio â'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe i fanteisio ar ddata gweinyddol ar lefel y boblogaeth i gynhyrchu, am y tro cyntaf, y dystiolaeth feintiol y mae mawr ei hangen ynglŷn â phrofiadau anhysbys teuluoedd o leiafrifoedd ethnig a chrefyddol sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod y duedd anghymesuredd ethnig, sy'n cyfleu lefel y gynrychiolaeth ethnig yn y system lles plant o gymharu â'r boblogaeth plant gyffredinol, yn wahanol i'r newidiadau yn nifer absoliwt y plant yn y system lles cymdeithasol plant yn ôl ethnigrwydd yn ystod y blynyddoedd 2011-2020. Plant treftadaeth gymysg oedd y rhai a orgynrychiolwyd fwyaf a phlant Asiaidd oedd y rhai a dangynrychiolwyd fwyaf, gydag amrywiadau yn y lefel dros amser.

Roedd plant du hefyd yn amrywio rhwng gorgynrychiolaeth a thangynrychiolaeth dros y blynyddoedd. Cynyddodd lefel gyffredinol yr anghymesuredd ethnig yng Nghymru o 2011-2016, ac yna gostyngodd o 2017-2020. Roedd anghymesuredd ethnig hefyd yn ymddangos yn fwy amlwg ymhlith merched, ac yn y grwpiau oedran 0-4 ac 16-17.

Hyd yn hyn, dim ond ymchwil gyfyngedig iawn a geir yn y Deyrnas Unedig sy'n archwilio canlyniadau addysgol plant o leiafrifoedd ethnig a chrefyddol sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol, a'u defnydd o wasanaethau iechyd. Gan ddefnyddio data gweinyddol cysylltiedig ym maes gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd, bydd yr astudiaeth hon yn archwilio sut mae ethnigrwydd, crefydd a phrofiadau o wasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd yn llywio cyrhaeddiad TGAU plant a sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cyd-fynd â blaenoriaeth bolisi Llywodraeth Cymru o leihau faint o blant sy'n cael eu derbyn i ofal, yn ogystal â'i Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol. Bydd y canfyddiadau'n llywio'r broses o drefnu a chyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol yn effeithiol yng Nghymru ymhlith plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig a chrefyddol y mae arnynt angen gwasanaethau.



Sut y gallwn ni wella profiadau a chanlyniadau plant awtistig mewn gofal? Astudiaeth dulliau cymysg o anghenion, gwasanaethau ac arfer da

Nod y prosiect hwn, a gefnogir gan yr Ysgol Seicoleg, yw deall mwy am blant awtistig mewn gofal maeth a gofal gan berthnasau ledled Cymru. Gwyddys fod plant mewn gofal yn fwy tebygol o fod yn niwrowahanol neu fod ag anghenion addysgol ychwanegol. Gwyddom hefyd ei bod yn anodd gwahanu rhai o'r gwahaniaethau cynnil rhwng nodweddion awtistig a thrawma neu anhwylder ymlyniad. Bydd yr astudiaeth hon yn cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r grŵp hwn sy'n agored i niwed ac nad yw wedi'i ymchwilio'n ddigonol i'n galluogi i wybod mwy am eu hanghenion, anghenion eu gofalwyr, a sut y gallwn eu cynorthwyo orau wrth symud ymlaen.

Rhennir y gwaith ymchwil hwn yn dair prif ran. Mae'r rhan gyntaf yn defnyddio banc data SAIL i gysylltu data er mwyn deall nifer y plant mewn gofal sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth, a deall mwy am batrymau diagnosis o gymharu â phlant nad ydynt mewn gofal. Yn ogystal, bydd cysylltu data ymhellach yn dweud wrthym am ganlyniadau'r plant awtistig hyn sydd wedi cael profiad o ofal pan fyddant yn oedolion.

Mae ail ran y prosiect ar ffurf arolwg a ddosberthir i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau ledled Cymru i amlygu lefelau nodweddion awtistig, lefelau anhwylder ymlyniad, a chryfderau ac anawsterau eraill i blant sydd mewn gofal ar hyn o bryd.

Mae'r drydedd ran yn ddarn mawr o waith ansoddol sy'n cynnwys cyfweiliadau â gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau a staff gwaith cymdeithasol mewn tri awdurdod lleol ledled Cymru. Bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach o'r cryfderau a'r heriau presennol sy'n ymwneud â diagnosis a chymorth i blant awtistig mewn gofal, gan gynnwys y rhai sydd â diagnosis presennol a'r rhai heb ddiagnosis.

Mae canfyddiadau rhagarweiniol y gwaith ymchwil hwn yn amlygu nifer fawr o blant mewn gofal sydd â lefelau uchel o nodweddion awtistig, ond heb ddiagnosis. Yn ogystal, mae gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth/gofalwyr sy'n berthnasau wedi amlygu anawsterau o ran cael y diagnosis cywir ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymchwil ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed a'r ffordd orau o'u cefnogi wrth symud ymlaen.





5. CASCADE yn dathlu 10 mlynedd o ragoriaeth mewn ymchwil gofal cymdeithasol plant

Ym mis Mai 2024, dathlwyd ein pen-blwydd yn 10 oed gyda digwyddiad cofiadwy a fynychwyd gan staff a rhanddeiliaid allweddol. Roedd y dathliad yn nodi degawd o ymchwil a chydweithio effeithiol gyda'r nod o wella gofal cymdeithasol plant yng Nghymru a thu hwnt.

Diolchwn o galon i'n cyllidwyr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, am eu cefnogaeth ddiwyro. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith effeithiol dros y 10 mlynedd nesaf.



Uchafbwyntiau'r digwyddiad

Cyflwyniadau cyflym

Mwynhaodd y mynychwyr gyflwyniadau deinamig yn amlygu rhai o brosiectau ymchwil allweddol y ganolfan yn ystod y degawd diwethaf. Roedd y cyflwyniadau hyn yn arddangos ehangder a dyfnder gwaith CASCADE a'i chyfraniadau arwyddocaol i'r maes.

Linell amser ryngweithiol

Roedd llinell amser weledol ddiddorol yn dangos lluniau, atgofion, a chyflawniadau allweddol o'r 10 mlynedd diwethaf, gan alluogi'r gwsteion i fyfyrio ar daith a cherrig milltir CASCADE.



Prif siaradwyr

Dawn Bowden AS: Traddododd Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru araith gyweirnod ysbrydoledig, gan bwysleisio effaith hollbwysig ymchwil CASCADE ar bolisi ac arfer yng Nghymru.

Wendy Lerner: Siaradodd Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd am gysyniad Cenhadaeth Ddinesig Fyd-eang a sut mae CASCADE wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned leol, gan ddylanwadu ar newidiadau polisi lleol ar yr un pryd â chynyddu ei chyrhaeddiad rhyngwladol.

Myfyriodd y Cyfarwyddwr Sefydliol, **Sally Holland**, ar sut mae'r Ganolfan wedi tyfu ers ei dyddiau cynnar yn 2014 a siaradodd y Cyfarwyddwr presennol, **Donald Forrester**, am gryfderau presennol y ganolfan a'i dyfodol disglair. Pwysleisiodd y ddau bwysigrwydd cadw pobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad bywyd o ofal cymdeithasol wrth wraidd gwaith CASCADE.



6. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'u Cynnwys

Cynnwys y Cyhoedd

Mae Bwrdd Strategol Cynnwys y Cyhoedd CASCADE wedi ychwanegu aelodau newydd, gan amrywio'r profiadau bywyd ar y bwrdd ac ychwanegu profiad gwaith cymdeithasol. Mae'r bwrdd yn newid i ymgymryd â rôl fwy yn CASCADE ac rydym yn gyffrous ynglŷn â'r camau nesaf.

Mae'r grŵp cyngori ymchwil profiad o ofal, sef Lleisiau CASCADE, a gynhelir mewn partneriaeth â Voices from Care Cymru, yn parhau i sicrhau bod ein hymchwil yn cynnwys lleisiau pobl ifanc. Maen nhw wedi bod yn adolygu grantiau newydd yn feirniadol mewn sesiynau tebyg i Dragons' Den ac yn herio ymchwilwyr i feddwl yn wahanol am ganlyniadau i bobl ifanc.

Mae Grŵp Cyngori Ymchwil Rhieni CASCADE wedi cyflwyno mewn cynadleddau ar bwysigrwydd cynnwys lleisiau nas clywir yn aml mewn ymchwil a sut i fynd ati i wneud hyn. Maen nhw hefyd wedi bod yn brysur yn dathlu eu holl waith caled trwy greu crochenwaith a digwyddiadau adeiladu tîm.

[Creu Cysylltiadau: Diwrnod Crochenwaith gyda Rhieni CASCADE – CASCADE \(cascadewales.org\)](#)



Cyfranogwyr Cynnwys y Cyhoedd



	Bwrdd Cynnwys CASCADE 18 o gyfranogwyr
	Lleisiau CASCADE 39 o gyfranogwyr
	Grŵp cyngori ymchwil rhieni CASCADE 80 o gyfranogwyr
	Cyfleoedd ymchwil 120 o gyfranogwyr

Uchafbwyntiau'r prosiect Cynnwys y Cyhoedd

Grŵp cyd-gynhyrchu Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cymru

Mae'r grŵp hwn, a gynhelir gyda Voices from Care Cymru, yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r tîm ymchwil i gynghori a chefnogi'r gwerthusiad pwysig hwn yng Nghymru. Maen nhw eisoes wedi bod o gymorth mawr trwy gefnogi'r broses o ddylunio'r deunyddiau cyfweld a'r cwestiynau arolwg.

Diolch yn fawr iawn i bob un sydd ynghlwm, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n teithio'n bell i ddod i'r cyfarfodydd, neu'r rheiny sy'n rhoi o'u hamser ar ddydd Sadwrn, yn enwedig ar ôl wythnos hir yn y gwaith, coleg neu'n gwneud prentisiaeth.
Yr Athro Sally Holland (o'r blog)

[Cyngor, cymorth a herio: Cyd-gynhyrchu yn y Gwerthusiad o Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cymru i Bobl sy'n Gadael Gofal - CASCADE \(cascadewales.org\)](#)



Première ffilm

Roeddem wrth ein bodd i ddangos am y tro cyntaf ffilmiau a gyd-gynhyrchwyd gyda phobl ifanc am berthnasoedd niweidiol a throsedd. Roedd y bobl ifanc mor ysbrydoledig a dewr am gymryd rhan yn y gwaith hwn a gobeithiwn y byddant yn arf gwych ar gyfer addysg a chodi ymwybyddiaeth.

[Première ffilm: Perthnasoedd niweidiol a throsedd - CASCADE \(cascadewales.org\)](#)

Grŵp ymchwil a pholisi gofalwyr sy'n berthnasau:

Eleni, lanswyd y grŵp newydd hwn a gynhelir gan AFKA Cymru a Kinship. Mae CASCADE yn gyffrous i weld beth all cynnwys y lleisiau gwerthfawr hyn ei gyfrannu at ein hymchwil a'n gwaith ehangach.

"Fel ymchwilydd gofal gan berthnasau, ni allwn wneud fy swydd heb allu siarad â theuluoedd i sicrhau fy mod yn dylunio ymchwil sy'n ateb y cwestiynau cywir ar eu cyfer.

Lorna Stabler (o'r blog)

Blog yma: [Grŵp Ymchwil a Chynghori'r Polisi ar Ofalwyr sy'n Berthynas - CASCADE \(cascadewales.org\)](#)

ExChange Wales

Mae ExChange wedi dathlu blwyddyn arall o dwf rhwydwaith a digwyddiadau addysgiadol, dylanwadol.

Mabwysiadu oedd un o'n themâu allweddol eleni. Yn yr haf, cynhaliom y gyfres o gynadleddau 'Ail-fframio Mabwysiadu', a oedd ein rhai mwyaf poblogaidd a diddorol o'r flwyddyn, yn cynnwys cyflwynwyr proffil uchel o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Un o'r uchafbwyntiau oedd y prosiect celf greadigol a ffotograffiaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu gan grŵp Adoption UK Canolbarth Cymru.

Daeth y flwyddyn i ben gyda Darlith Mabwysiadu hybrid gofiadwy a dylanwadol iawn gan yr Athro Laura Machin o Brifysgol Caerhirfryn, am ei Phrosiect Ymchwil Eiriolaeth Mabwysiadu. Mae'r ymchwil yn rhoi llais y mae mawr angen amdano i fabwysiadwyr, er mwyn helpu i lywio cymorth ac arferion gwell. Myfyriodd yr Athro Machin *"Mae'r Ddarlith Mabwysiadu wedi ehangu ein hymchwil i faes newydd ac mae'n wych nawr i fod yn cymryd rhan mewn sgyrsiau gydag uwch ffigurau dylanwadol yn y byd mabwysiadu. Rwy'n hynod ddiolchgar am fod wedi cael y platfform hwnnw gan Alyson [Rees], ac rwy'n mawr obeithio y gallaf gyrraedd Caerdydd eto a threulio mwy o amser gyda chydweithwyr yno yn y ganolfan ymchwil."*

Roedd ein cyfres o gynadleddau iechyd meddwl yn rhychwantu gofal cymdeithasol plant ac oedolion, gyda chyflwyniadau'n amrywio o iechyd meddwl plant sydd wedi cael profiad o ofal, i greu rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer oedolion sy'n cael problemau iechyd meddwl. Cawsom hefyd amrywiaeth o weminarau annibynnol ar ymchwil feintiol ac ansoddol, gan ymchwilwyr CASCADE a'n partneriaid fel cydweithwyr o Brifysgol Abertawe. Mae sefydlu'r Ganolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion (CARE) wedi dod â chyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio a lledaenu ymchwil gofal cymdeithasol ar hyd oes.

Er bod ExChange wedi parhau i gael ei gyflwyno ar-lein yn bennaf, gwelwyd cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb a gyflwynwyd gan ExChange ac a fynychwyd ganddo. Pleser o'r mwyaf oedd cynnal gweithdai wyneb yn wyneb ar ymarfer gwrth-hiliol mewn gofal cymdeithasol plant, yng Nghaerdydd a Bangor, a gefnogwyd gan weminar. Ac fel y soniwyd uchod, roeddem yn gallu cynnig y ddarlith mabwysiadu ar ffurf hybrid, gan alluogi ein cynulleidfa i ddewis mynychu wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Er mwyn cynyddu ein rhyngweithio wyneb yn wyneb â chynulleidfaoedd newydd a phresennol, gwnaethom achub ar y cyfle i gynnal stondinau a hyrwyddo ExChange mewn cynadleddau allanol, gan gynnwys y rhai a gynhaliwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW), Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a Chartrefi Cymunedol Cymru, ASPIRE a thîm Hyrwyddo Ymchwil Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â'r Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol. Aeth hyn â ni ledled Cymru o Gaerdydd i Landudno, ac o Abertawe i Fangor, gan gychwyn trafodaethau ag ymarferwyr gofal cymdeithasol a phobl â phrofiad bywyd, ynghylch sut y gallwn gefnogi eu hanghenion ymarfer a datblygu.



Uchafbwyntiau yn y cyfryngau



Ymweliadau
â'r dudalen we

55,699



Dilynwyr
newydd

528



Fideos
a wylwyd

12,530



Rhwydwaith
cyfnewid

1,775

Gweithgareddau ymgysylltu



- 21 o flogiau
- 38 o fideos
- 16 o weminarau ar-lein
- 12 o fwletinau
- 2 weithdy
- 9 stonddin mewn cynadleddau





6. Casgliad

Mae Partneriaeth CASCADE yn bleser bod yn rhan ohoni. Mae'n llawn egni a brwdfrydedd – ynghyd ag arbenigedd – a gobeithiaf fod y tudalennau hyn wedi dangos hynny. Mae'r ystod o brosiectau yn rhywbeth sy'n dal i fy syfrdanu, ac mae gweld y cyfraniad sylweddol yr ydym yn ei wneud at sgysiau cenedlaethol a rhyngwladol am ofal cymdeithasol plant yn destun boddhad mawr.

Rwy'n ffodus iawn o fod yn ysgrifennu'r "diweddglô" hwn o fryniau hardd (er glawog!) Chianti, ychydig y tu allan i Siena. Gan amlaf, rwy'n addysgu myfyrwyr PhD gwaith cymdeithasol yn yr Eidal am ddulliau ymchwil gwerthusol. Soniaf amdano nid i'ch gwneud yn genfigennus, ond oherwydd heddiw rhannais rywfaint o'r gwaith a wnawn yn CASCADE. Mae gweld y syndod ynghylch maint ein portffolio a nifer y myfyrwyr PhD sydd gennym yn gwneud i rywun sylweddoli pa mor anarferol ac arloesol yw Partneriaeth CASCADE. Weithiau, mae gweld ein hunain trwy lygaid pobl eraill yn gallu gwneud i ni werthfawrogi pethau o'r newydd, ac roeddwn wedi'm syfrdanu braidd gan yr hyn roedden ni'n ei wneud. Gobeithiaf fod ein hadroddiad blynyddol yn cyfleu hynny i ryw raddau.

Dim ond oherwydd y grŵp rhagorol o bobl ar draws y Partneriaeth sy'n gwneud iddo ddigwydd y cyflawnir hyn oll – ac rwy'n arbennig o ddiolchgar bod gennym ni arbenigedd gan un neu fwy o SAIL, y Ganolfan Treialon Ymchwil a'r Ysgol Seicoleg yn y rhan fwyaf o brosiectau'r Partneriaeth.

Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn, er bod ymchwilwyr yn tueddu i gael y clod, bod y cyflawniadau a amlinellir yma'n bosibl dim ond oherwydd ein tîm gwasanaethau proffesiynol anhygoel, sy'n gwneud i bethau ddigwydd mor llyfn ac effeithlon, gan ganiatáu i ymchwilwyr a Chyfarwyddwyr Canolfannau fwrw ymlaen â'r gwaith ymchwil.

Y flwyddyn nesaf yw blwyddyn olaf y cyllid Seilwaith presennol, a gobeithiaf y gallwn adrodd nid yn unig ar ein pum mlynedd gyntaf ond hefyd ar ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain, yn fy marn i, yn wirioneddol gyffrous. Maen nhw'n cynnwys sefydlu cydweithrediadau newydd, datblygu meysydd ymchwil arloesol a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr i ddod yn arweinwyr. Rwy'n gobeithio y bydd gennym ni gynlluniau a syniadau cyffrous i adrodd arnynt am ffyrdd y gall CASCADE ddatblygu rhwydwaith o sefydliadau sydd ag arbenigedd a diddordeb mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a theuluoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Yr Athro Donald Forrester
Cyfarwyddwr, Partneriaeth CASCADE